Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU
a gynhaliwyd ar ffurf Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 06 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Euros Davies (Cadeirydd); y Cynghorwyr Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Paul Hinge, Gwyn James a John Roberts

Swyddogion yn bresennol: Mr Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad; Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Mr Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30am-10:20am)

1 Cyflwyniad
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Steve Davies, Endaf Edwards a Caryl Roberts am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Amanda Edwards am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod gan ei bod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu
Datgelodd y Cynghorydd Euros Davies fuddiant personol yng nghyswllt yr Hysbysiadau o Ddigwyddiadau Dros Dro.

3 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 yn gywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Paul Hinge wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Materion yn codi
6(iii) Cadarnhawyd bod llythyr wedi'i anfon at y Comisiwn Gamblo. Adroddwyd bod y Comisiwn wedi ymateb drwy ddweud wrth y Swyddogion y dylai'r sylwadau hyn gael eu cyflwyno pan fyddai'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn cynnal yr ymgynghoriad nesaf.

4 Diweddariad Cyffredinol
Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch y Diweddariad Cyffredinol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn diweddaru'r Aelodau am faterion perthnasol a oedd yn ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.

Rhoddwyd y diweddariad canlynol ynglŷn â materion a oedd yn gysylltiedig â Deddf Trwyddedu 2003:-

- Eisteddfod Tregaron 2022
- Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)
- Hysbysiadau o Ddigwyddiadau Dros Dro

O ran materion a oedd yn gysylltiedig â Deddf Gamblo 2005, rhoddwyd y diweddariad canlynol:-

- Papur Gwyn – Adolygu'r Ddeddf Gamblo

CYTUNWYD ynghylch y canlynol:
(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth;
(ii) y byddai'r sylwadau / pryderon a godwyd gan yr Aelodau ynghylch y problemau a gafodd ymwelwyr anabl / rhieni ar faes yr Eisteddfod yn cael eu trosglwyddo i Swyddogion yr Eisteddfod fel y gallent roi sylw iddynt cyn yr Eisteddfod nesaf ; a
(iii) nodi y byddai'r manylion am yr ymgynghoriad nesaf ynghylch y Ddeddf Gamblo yn cael ei rhannu, yn unol â'r drefn arferol, drwy dudalen Facebook y Cyngor a thrwy swyddfa'r wasg.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____